

Creu tai o'r radd flaenaf a datblygu ein hasedau eiddo

Prif Swyddog Tai

Cyflog £89,085 – £99,565 (mae'n bosibl y bydd modd ei ymestyn lle bo angen yn sgil amodau arbennig)

Bydd ein polisi ail-leoli hefyd yn berthnasol i'r swydd hon.

Mae cyfle cyffrous wedi codi i ymuno â'n Uwch Dîm Rheoli, mewn rôl sydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Byddwch yn arwain ar y portffolio Tai, ac yn cyfrannu'n weithredol at ein nodau arweinyddiaeth casgliadol er mwyn darparu gwelliannau hirdymor a gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

Rydym yn chwilio am unigolyn i arwain ein rhaglen buddsoddi mewn gwasanaethau a safonau tai, sy'n cynnwys cynyddu a gwella ein stoc dai a thai gwarchod, lleihau digartrefedd a gwella ansawdd bywyd tenantiaid a'n cymunedau.

Arwain ar brosiectau siapio lleoedd sy'n gysylltiedig ag asedau gan gynnwys Porth y Gorllewin, ein Safle Treftadaeth y Byd a datblygiadau Canol Tref Wreccsam.

Byddwch yn chwarae rhan hanfodol yn darparu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ynghyd â chyfrifoldeb penodol am ein cynlluniau uchelgeisiol i greu cymunedau ffyniannus, cryf a thai o safon uchel bawb.

Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n meddu ar sgiliau arweinyddiaeth ardderchog a gweladwy, yn ogystal â sgiliau proffesiynol a gwybodaeth i ddatblygu perthnasoedd a phartneriaethau effeithiol gydag ystod o fudd-ddeiliaid mewnol ac allanol.

Bydd gennych lwyddiant blaenorol o ddarparu canlyniadau strategol o ran Tai a'r sgiliau i ddylanwadau ac arwain eraill. Bydd gennych y gallu i arwain ar newid diwylliannol, annog sgysiau gonest ar draws y gwasanaeth a hyrwyddo diwylliant 'Un Cyngor'. Os oes gennych y gallu i ddarparu cymorth ariannol, masnachol a strategol cryf i Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor yn y rôl hanfodol hon, byddem yn croesawu cais gennych chi.

I ddarganfod mwy am y swydd hon, ymwelwch â <https://www.adeiladuarlwyddiant.cymru/>

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, cysylltwch ag Ian Bancroft, ein Prif Weithredwr am sgwrs anffurfiol am y swydd ar 01978 292101.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei weithlu dwyieithog ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu gallu i weithio yn Gymraeg ac yn Saesneg

Dyddiad cau: hanner dydd 24 Mehefin 2021

Tynnu rhestr yr wythnos yn dechrau 28 Mehefin 2021

Proses ddethol yr wythnos yn dechrau 5 Goffennaf 2021 (6 & 7 Gorffennaf 2021)